Rhif: **WG23934**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Dynodi cyrsiau addysg uwch gan ddarparwyr amgen at ddibenion cymorth i fyfyrwyr

Dyddiad cyhoeddi: **19 Ionawr 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **10 Ebrill 2015**

# Dynodi cyrsiau addysg uwch gan ddarparwyr amgen at ddibenion cymorth i fyfyrwyr

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar ein cynigion i gryfhau'r broses o reoleiddio darparwyr addysg uwch amgen er mwyn diogelu profiadau myfyrwyr a sicrhau defnydd effeithiol o arian cyhoeddus.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **10 Ebrill 2015** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Papur Gwyn *Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)* (2012)
www.cymru.gov.uk/consultations/education/feandhebill/?skip=1&lang=cy

*Bil Addysg Uwch (Cymru)* ymgynghoriad technegol (2013)
www.cymru.gov.uk/consultations/education/higher-education-wales-bill-technical-consultation/?skip=1&lang=cy

Bil Addysg Uwch (Cymru)
www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=9722

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013
www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3177/contents/made/welsh

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Yr Is-adran Addysg Uwch
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: HEDConsultationsMailbox@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2015
WG23934

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


**Beth yw'r prif faterion? 2**

**Ble rydym ni nawr? 3**

**Yr achos dros newid 5**

**Golwg gyffredinol ar system ddiwygiedig 7**

**Ein cynigion 10**

Y meini prawf ar gyfer dynodiadau penodol 10

Dynodi cyrsiau breiniol 13

Cynnal dynodiad penodol 14

Gweinyddiaeth 15

Cymharu rheoliadau ar gyfer darparwyr wedi'u rheoleiddio a darparwyr amgen 16

**Effaith 18**

**Gweithredu 20**

Adolygu dynodiadau presennol 20

Myfyrwyr presennol 20

## Beth yw'r prif faterion?

Mae Papur Gwyn y Bil Addysg Bellach ac Uwch a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012 yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio rheoliadau addysg uwch (AU) yng Nghymru.

Gwnaed diwygiadau i'r cynigion yn dilyn adborth i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Yna, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad Technegol pellach ym mis Mai 2013. Cyflwynwyd Bil Addysg Uwch (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 19 Mai 2014.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â gorchymyn 'darparwyr amgen' addysg uwch, ac mae'n ategu ac yn datblygu'r ymgynghoriadau cynharach. Darparwyr amgen yw sefydliadau nad ydynt yn cael eu hariannu'n gyhoeddus sy'n cyflwyno cyrsiau addysg uwch (cyfeirir atynt hefyd fel darparwyr preifat neu ddarparwyr nad ydynt yn gyhoeddus). Mae gan y darparwyr hyn strwythurau cyfreithiol amrywiol. Mae rhai yn gweithredu er elw, eraill ddim yn gwneud hynny.

Gallai myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau'r darparwyr hyn fod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn rhyddhau'r cymorth hwn, rhaid i ddarparwyr amgen wneud cais i gael eu cyrsiau wedi'u 'dynodi' gan Weinidogion Cymru. Galwyd hyn yn ddynodiad ar sail achosion unigol neu ddynodiad penodol. Cyfeirir ato yma fel dynodiad *penodol*.

Roedd ymgynghoriadau blaenorol yn canolbwyntio ar reoleiddio darparwyr AU sydd â chyrsiau wedi'u dynodi'n *awtomatig*. Drwy wneud newidiadau i'r trefniadau ar gyfer dynodiad penodol darparwyr amgen, bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r broses o adolygu agweddau allweddol ar y fframwaith rheoleiddio ar gyfer pob darparwr AU, pa un a ydynt wedi'u dynodi ar sail awtomatig neu benodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu newidiadau yn y modd y dynodir darparwyr amgen er mwyn:

- diogelu profiadau myfyrwyr drwy gynnal archwiliadau mwy trwyadl o sefydliadau sy'n gwneud cais am ddynodiad;
- darparu mwy o sicrwydd y caiff arian cyhoeddus ei wario'n effeithiol.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r meini prawf newydd ar gyfer dynodi a'r dull a ffefrir gennym ar gyfer gweithredu, ac mae'n gofyn am eich barn ar y cynigion hyn.

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 10 Ebrill 2015.

## Ble rydym ni nawr?

Roedd Deddf Addysg Uwch 2004 yn trosglwyddo mwyafrif[1] y swyddogaethau sy'n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr sydd yn adran 22 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998[2] i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys dynodi cyrsiau at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr. Cafodd y pwerau hynny eu trosglwyddo wedyn i Weinidogion Cymru[3].

Cyn belled â bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni[4], caiff cyrsiau llawer o ddarparwyr AU eu dynodi yn *awtomatig* at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr. Lle caiff cyrsiau eu dynodi yn awtomatig, fel arfer bydd myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n dilyn cwrs o'r fath yn gymwys i wneud cais am gymorth ariannol. Mae mwyafrif helaeth y myfyrwyr sy'n derbyn cymorth ariannol gan Weinidogion Cymru yn dilyn cyrsiau sy'n cael eu dynodi'n awtomatig. Mae'r Bil Addysg Uwch (Cymru) yn cynnig y dylai sefydliadau yng Nghymru sy'n dymuno i'w cyrsiau AU gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr fod â chynllun ffioedd a mynediad ar waith, wedi'i gymeradwyo gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Bydd disgwyl i sefydliadau yng Nghymru sydd â chynllun ffioedd a mynediad wedi'i gymeradwyo gydymffurfio â gofynion y fframwaith rheoleiddio newydd.

Nid dynodiad awtomatig yw'r unig ffordd o ddynodi cyrsiau. Gall darparwyr addysg uwch sy'n codi ffioedd ar fyfyrwyr ddewis gwneud cais i Weinidogion Cymru yn lle hynny i gael rhai neu bob un o'u cyrsiau wedi'u dynodi ar sail benodol. Rhaid i gwrs fodloni meini prawf penodol er mwyn cael ei ddynodi. Dim ond y cyrsiau y bydd y darparwr yn gwneud cais ar eu cyfer fydd yn cael eu dynodi. Cyfeirir at y llwybr dynodi hwn fel dynodiad penodol i wahaniaethu rhyngddo a'r llwybr awtomatig.

Mae myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau â dynodiad penodol yn gymwys i wneud cais am amryw o grantiau a benthyciadau, a bydd rhai ohonynt yn seiliedig ar brawf modd. Dyma'r prif grantiau a benthyciadau sydd ar gael:

- benthyciad ffioedd dysgu;
- grantiau a benthyciadau costau byw (cynhaliaeth) yn seiliedig ar brawf modd;
- lwfansau dibynyddion.

---

[1] Nid yw'r holl swyddogaethau o dan adran 22 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Gweinidogion Cymru erbyn hyn), ac mae rhai o'r rhai sydd wedi'u trosglwyddo yn cael eu gweithredu ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, gweler adran 44(2) Deddf Addysg Uwch 2004.
[2] C.30
[3] Paragraff 30, Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
[4] Gweler rheoliad 5 Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/3177) (fel y'i diwygiwyd)

Adolygir faint o gymorth sy'n cael ei roi yn flynyddol. (Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar faint o gymorth y mae Gweinidogion Cymru yn ei ryddhau i fyfyrwyr ar gyrsiau dynodedig.) Nid yw myfyrwyr ar gyrsiau dynodiad penodol yn gymwys i wneud cais am grant ffioedd dysgu; mae myfyrwyr ar gyrsiau a ddynodwyd yn awtomatig yn gymwys i wneud cais am y grant hwn.

Mae'r mathau o gyrsiau y gellir eu dynodi yn cynnwys cyrsiau israddedig, ôl-raddedig (at ddibenion Lwfansau Myfyrwyr Anabl yn unig) amser llawn a rhan amser, a chyrsiau dysgu o bell. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013 fel y'u diwygiwyd[5] ('y Rheoliadau') yn dynodi rhai cyrsiau at ddiben adran 22 Deddf 1998 ac yn disgrifio'r swm a'r math o gymorth ariannol a allai fod ar gael i fyfyrwyr.

Mae'r data diweddaraf yn awgrymu bod Gweinidogion Cymru yn cefnogi 340 o fyfyrwyr ar gyrsiau a ddynodwyd yn benodol gan 66 o ddarparwyr amgen ym mlwyddyn academaidd 2013/14[6] (o ran cymhariaeth, roedd 61,195 o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru wedi cofrestru'n amser llawn yn Sefydliadau Addysg Uwch y DU yn 2012/13 ac roedd 63,470 arall wedi cofrestru'n rhan amser[7]). Niferoedd bach o fyfyrwyr a gefnogir sy'n dilyn y rhan fwyaf o'r cyrsiau; dim ond un myfyriwr a gefnogir sy'n hanu o Gymru sydd gan 32 o'r 66 darparwr. Dim ond wyth darparwr sydd â 10 neu fwy o fyfyrwyr a gefnogir gan Weinidogion Cymru. Mae gan 25 darparwr arall gyrsiau a ddynodwyd ond nid oes unrhyw fyfyrwyr sy'n cael cymorth yn eu dilyn ar hyn o bryd.

[5] Diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2014/1712 (W.172).
[6] Darparwyd y data yn y paragraff hwn gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.
[7] EDUC0097 Cofrestriadau, yn ystod y flwyddyn, ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Gymru mewn SAUau yn y DU yn ôl dull, blwyddyn astudio a lefel. Llywodraeth Cymru. https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Students/Welsh-Domicile-Enrolments-at-UK-HEIs/EnrolmentsDuringTheYearAtUKHEIs-by-Mode-YearOfStudy-Level

## Yr achos dros newid

Mae Llywodraeth Cymru yn gwario i sicrhau bod cymorth i fyfyrwyr ar gael i fyfyrwyr cymwys gan ddarparwyr amgen. I bob pwrpas, mae darparwyr amgen yn manteisio ar gymhorthdal Llywodraeth Cymru drwy dderbyn ffioedd. Fel y cyfryw, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol ac er lles y cyhoedd.

Mae nifer o resymau dros gyflwyno trefniadau newydd ar gyfer dynodi cyrsiau gan ddarparwyr amgen yn awr.

Yn gyntaf, mae’r dirwedd addysg uwch yn cael ei newid yn sylweddol. Mae mwy o gyrsiau AU yn cael eu cynnig gan ddarparwyr amgen. Tyfodd nifer y myfyrwyr sydd ar gyrsiau â dynodiad penodol gan Weinidogion Cymru o 245 yn y flwyddyn academaidd 2012/13 i 340 yn y flwyddyn academaidd 2013/14[8]. Wrth i’r niferoedd hyn dyfu, felly hefyd y mae’r achos dros wella’r broses o reoleiddio darpariaeth o’r fath.

Yn ail, bydd gan ddarparwyr AU sydd wedi’u lleoli yng Nghymru ddewis ynghylch sut y dynodir eu cyrsiau. Bydd angen i ddarparwr sy’n dymuno cael ei gyrsiau wedi’u dynodi’n awtomatig wneud cais am gymeradwyo ‘cynllun ffioedd a mynediad’. Bydd cynllun ffioedd a mynediad yn sicrhau, ymhlith pethau eraill, fod y ffioedd y mae’r darparwr yn eu codi yn cael eu rheoleiddio a bod yn rhaid iddo weithio i ehangu mynediad i addysg uwch. Fel arall, gall darparwr wneud cais i gael rhywfaint neu’r cyfan o’i gyrsiau wedi’u dynodi ar sail benodol. Ni fydd darparwyr sydd â chyrsiau wedi’u dynodi yn y ffordd hon yn ddarostyngedig i ofynion cynllun ffioedd a mynediad. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd darparwyr AU mawr yn dewis gwneud cais am gynllun ffioedd a mynediad ond nid yw’n orfodol—mater i’r darparwr yw dewis a yw am ddilyn y llwybr penodol awtomatig ar gyfer dynodi. Mae cryfhau’r broses o reoleiddio darparwyr sydd â chyrsiau wedi’u dynodi ar sail benodol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cyrsiau darparwyr mawr sy’n dewis cael cyrsiau wedi’u dynodi yn y ffordd hon yn parhau i gael eu rheoleiddio.

Yn drydydd, yn Lloegr, mae nifer y myfyrwyr sy’n hanu o Loegr sy’n dilyn cyrsiau â dynodiad penodol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn tyfu. Gallai hyn arwain at ddynodi mwy fyth o gyrsiau a mwy o ddarparwyr amgen newydd. Mewn ymateb i hyn, mae’r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau wedi gweithredu trefniadau dynodi newydd yn Lloegr a fydd yn cryfhau’r broses o reoleiddio darparwyr[9] amgen. Heb newid, gallai fod llai o fesurau diogelu ar

[8] Darparwyd data gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.
[9] Specific Course Designtaion, Guidance for Providers, Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Awst 2014.


waith ar gyfer myfyrwyr sy’n dilyn cyrsiau a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru.

Yn olaf, mae angen sicrhau bod prosesau dynodi cyrsiau yn cyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch. Roedd y Papur Gwyn yn ymgynghori ar y bwriad i sicrhau ei bod yn ofynnol i’r holl sefydliadau AU a darparwyr AU amgen sy’n cynnig cyrsiau a ddynodwyd at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr... gydymffurfio â’r un rheolaethau er mwyn diogelu buddiannau myfyrwyr, trethdalwyr a chymdeithas Cymru.

Oherwydd y rhesymau hyn, mae angen trefniadau newydd i sicrhau bod cyrsiau â dynodiad penodol yn cael eu rheoleiddio’n effeithiol.

## Golwg gyffredinol ar system ddiwygiedig

Amlinellodd yr Ymgynghoriad Technegol (Mai 2013) y ddau lwybr i ddynodiad y gall darparwr ddewis rhyngddynt -awtomatig, a fydd yn galw am gynhyrchu a chadw at gynllun ffioedd a mynediad, a phenodol, lle na fydd darparwyr yn ddarostyngedig i ofynion cynllun, ond byddant yn ddarostyngedig i feini prawf dynodi penodol. Mae’r llwybrau hyn yn rhan o un system ar gyfer rheoleiddio AU a ariennir yn gyhoeddus. Fel y cyfryw, ac yn unol â’r amcanion polisi uchod, mae’n werth defnyddio nodweddion yr un system reoleiddio sy’n berthnasol i ddarparwyr â chynllun ffioedd ar gyfer darparwyr heb gynllun o’r fath - cae chwarae gwastad ar gyfer y ddau lwybr. Mae’r ddau lwybr ar gyfer dynodi wedi’u crynhoi yn y diagram isod.




Roedd yr Ymgynghoriad Technegol yn crynhoi'r system reoleiddio fel un sy'n darparu ar gyfer:

- rheoli ffioedd a mynediad teg;
- asesu ansawdd;
- sicrwydd ariannol.

Yn erbyn hyn, mae swm bach iawn y ddarpariaeth a gyflenwir gan ddarparwyr amgen, y fantais fach ganlyniadol i ddarparwyr a'r gost gymharol fach i Lywodraeth Cymru. Felly, mae'r broses o ddatblygu polisi wedi'i llywio gan yr angen i sicrhau bod rheoleiddio 1) yn gymesur â maint y sector a darpariaeth

pob darparwr 2) yn gymesur â’r gost i Lywodraeth Cymru a 3) yn cynnal dewis rhesymol i ddysgwyr.

Mae Bil Addysg Uwch (Cymru) yn adeiladu ar y fframwaith rheoleiddio cyfredol yng Nghymru. Cymerwyd y cyfle i ystyried a ddylid cyflwyno rhai o’r mesurau rheoleiddio presennol i’r llwybr dynodi penodol er mwyn sicrhau bod darparwyr amgen yn cyfateb yn agosach i ddarparwyr rheoledig.

# Ein cynigion

## Y meini prawf ar gyfer dynodiadau penodol

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ymgeiswyr brofi bod eu cyrsiau yn bodloni meini prawf penodol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer dynodiad penodol Gweinidogion Cymru. Mae'r meini prawf yn amrywio yn dibynnu ar natur y cwrs - pa un a yw'n gwrs amser llawn neu ran amser, er enghraifft. Manylir ar y meini prawf presennol yn y Rheoliadau ac ni chânt eu newid gan y cynigion hyn.

Ceidw Gweinidogion Cymru y pŵer i ddynodi pa fathau o gyrsiau a bennir yn y Rheoliadau (amser llawn a rhan amser, ôl-raddedig, dysgu o bell)—nid yw'r cynigion yn effeithio ar hyn ychwaith.

Argymhellir nifer o feini prawf ychwanegol newydd. Cyn y rhoddir dynodiad, bydd angen bodloni'r meini prawf hyn, a drafodir isod yn eu tro, yn ogystal â'r meini prawf presennol.

Ymgynghorwyd ar y rhan fwyaf o'r meini prawf hyn o'r blaen yn y Papur Gwyn (Gorffennaf 2012) a/neu'r Ymgynghoriad Technegol (Mai 2013).

### Statws elusennol

Roedd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn gofyn am farn rhanddeiliaid ynglŷn â pharhau i gyllido cymorth i fyfyrwyr ar gyfer cyrsiau a gyflenwir gan ddarparwyr amgen. Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad fod darparu ystod o gyfleoedd astudio yn ddymunol ond bod angen cydbwyso costau darpariaeth o'r fath yn erbyn lles ehangach y cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod disgwyl i bob sefydliad addysg uwch a darparwr amgen sy'n manteisio ar rywfaint o gymhorthdal ariannol o arian cyhoeddus wneud cyfraniad i les y cyhoedd. Un dull o sicrhau hyn yw ei gwneud yn ofynnol i bob corff o'r fath sy'n ceisio am ddynodiad i'w cyrsiau gan Lywodraeth Cymru gael statws elusennol. Mae elusennau'n bodoli er budd y cyhoedd, nid unigolion penodol, a rhaid i'w dibenion fod yn rhai elusennol yn unig.

Felly, y cyntaf o'r meini prawf newydd i'w cyflwyno yw'r angen i gorff sy'n gwneud cais brofi ei statws fel elusen. Trafodwyd y maen prawf hwn yn flaenorol yn yr Ymgynghoriad Technegol.

**Ansawdd y ddarpariaeth**

Bydd yr ail faen prawf newydd yn sicrhau mai dim ond darpariaeth sy'n cyrraedd safon benodol a fydd yn gymwys i dderbyn dynodiad. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd fod wedi cael adolygiad sicrwydd ansawdd llwyddiannus gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) cyn gwneud cais am ddynodiad. Mae'r maen prawf hwn wedi'i gyflwyno yn Lloegr.

Amlinellwyd y maen prawf hwn yn y Papur Gwyn (Gorffennaf 2012) ac roedd yr ymatebwyr yn fras o blaid ei gyflwyno. Mae'n debygol y bydd y modd y caiff y maen prawf ei weithredu yn cael ei lywio gan y dull a roddir ar waith yn Lloegr[10], gan sicrhau cysondeb i ddarparwyr lle bo'n bosibl. Cred Llywodraeth Cymru bod adolygiad QAA yn addas ar gyfer bodloni ei amcan o warantu ansawdd y ddarpariaeth. Drwy fabwysiadu'r un broses adolygu â'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer dynodi yn Lloegr, y bwriad yw mai dim ond unwaith y bydd yn rhaid cynnal asesiad ansawdd ar ymgeiswyr sy'n gwneud cais am ddynodiad gan y ddwy weinyddiaeth.

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn gofyn am ffioedd amrywiol ar gyfer cynnal adolygiad. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd talu'r ffioedd hyn.

**Hyfywedd ariannol**

Bydd y trydydd maen prawf newydd yn sicrhau bod darparwr yn hyfyw yn ariannol ac y gall myfyrwyr ddisgwyl yn rhesymol y gallant gwblhau eu hastudiaethau. Cynhelir cyfres o asesiadau ariannol safonol ar bob ymgeisydd a bydd gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth briodol er mwyn gallu cynnal yr asesiad. Mae maen prawf tebyg wedi'i gyflwyno yn Lloegr.

Trafodwyd y maen prawf hwn hefyd yn y Papur Gwyn (Gorffennaf 2012) ac roedd yr ymatebwyr o blaid ei gyflwyno.

**Aelodaeth o'r cynllun cwynion myfyrwyr**

Ymgynghorwyd ar, ym Mhapur Gwyn Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru), y bwriad i ofyn i ddarparwyr sy'n cynnig cyrsiau dynodedig ar gyfer cefnogaeth statudol i fyfyrwyr, fod yn aelod o'r cynllun cwynion myfyrwyr a weithredir gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar hyn o bryd. Cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr gyda'r bwriad hyn.

---

[10] Efallai y byddai ymatebwyr yn gweld Pennod 3 canllawiau yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn ddefnyddiol (Specific Course Designation, Guidance for Providers, yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Awst 2014).

Mae'r Bil Hawliau Defnyddwyr sy'n mynd drwy Senedd y DU ar hyn o bryd, yn darparu ar gyfer darparwyr amgen sydd â dynodiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg neu un o Weinidogion Cymru, i fod yn aelodau o'r cynllun. Bydd yn cryfhau'r atebolrwydd ac yn sicrhau i fyfyrwyr y delir â chwynion yn rymus ac yn annibynnol, ac yn gyfwerth yn y llwybrau awtomatig a phenodol i ddynodiad.

Ein bwriad ar hyn o bryd yw gweithio â Llywodraeth y DU i gyflwyno'r anghenion hyn yn ystod 2015, yn ddarostyngedig â'r Bil Hawliau Defnyddwyr yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

**Gwybodaeth gyhoeddus ddigonol**

Bydd y pumed maen prawf newydd, sef yr olaf, yn ei gwneud yn ofynnol bod digon o wybodaeth am y cyrsiau ar gael i fyfyrwyr ac i'r cyhoedd er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Er mwyn bodloni'r maen prawf hwn, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr danysgrifio gyda'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y niferoedd bach o fyfyrwyr ar hyn o bryd sy'n cael cymorth a chost tanysgrifiad HESA. Felly, argymhellir eithrio darparwyr sydd â llai na 50 o fyfyrwyr sy'n cael cymorth. Pe bai nifer myfyrwyr unrhyw ddarparwr unigol yn uwch na'r terfyn hwn, neu'n codi'n uwch na'r terfyn, byddai gofyn tanysgrifio gyda HESA fel amod ar gyfer cael dynodiad.

Trafodwyd y maen prawf hwn hefyd yn y Papur Gwyn (Gorffennaf 2012) ac roedd yr ymatebwyr yn fras o blaid ei gyflwyno.

Mae'r maen prawf hwn wedi'i gyflwyno yn Lloegr a bwriadwn efelychu'r trefniadau a roddwyd ar waith yno gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.

**Ffeithiau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad dynodi**

Cynigir cynnwys amod a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw ffeithiau y maent yn barnu eu bod yn berthnasol i'r penderfyniad dynodi. Bydd hyn yn golygu y bydd yn bosibl ystyried materion nad ydynt yn hawdd i'w diffinio yn y canllawiau i ddarparwyr neu sy'n ddarostyngedig i brofion syml a bydd yn gam diogelu ychwanegol. Gellid defnyddio hyn i roi cyfrif am faterion rheoli a llywodraethu sylweddol, neu bryderon eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn benodol yn y meini prawf a gynigiwyd.

Ceir enghreifftiau mewn sefyllfaoedd eraill lle mae darpariaeth debyg wedi'i chynnwys, er enghraifft yng Nghynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) 2014/15 sy'n rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru o ran nodi sefydliad

addysgol cydnabyddedig at ddibenion LCA fel unrhyw sefydliad addysgol arall y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn briodol. Byddai disgresiwn o'r fath yn ddarostyngedig i egwyddorion cyfraith gyhoeddus gyffredinol ac yn cael ei arfer o fewn cyfyngiadau cyfraith gyhoeddus (hy tegwch a rhesymoldeb).

Byddai canllawiau yn rhoi arwydd clir i ymgeiswyr o'r mathau eraill o wybodaeth y byddai Gweinidogion Cymru yn eu hystyried.

## Dynodi cyrsiau breiniol

Bydd darparwyr yn gwneud pob math o drefniadau gwahanol gyda darparwyr eraill. Dim ond un math yw breinio, a gall y term gwmpasu amrywiaeth o drefniadau. Fe'i defnyddir yma i olygu darpariaeth y byddai Gweinidogion Cymru yn deall ei bod yn cael ei darparu'n rhannol o leiaf gan un darparwr (y sefydliad wedi'i freinio) ar ran un arall (y breiniwr).

**Breinio gan sefydliad a reoleiddir**

Os ddeddfu Bil Addysg Uwch (Cymru) bydd sefydliad sydd wedi'i leoli yng Nghymru sy'n gwneud cais llwyddiannus am gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad – a adwaenir fel sefydliadau a reoleiddir – yn gweld eu cyrsiau 'cymwys' yn cael eu 'dynodi' yn awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr. O ganlyniad, gallai myfyrwyr fod yn gymwys i wneud cais am grant a benthyciad ffioedd dysgu.

Ar hyn o bryd mae cyrsiau cymwys wedi'u rhagnodi mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 28 Deddf Addysg Uwch 2004, ac wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) (fel y'u diwygiwyd)[11].

Yn unol â bwriad y polisi, mae'n dilyn bod unrhyw gwrs cymwys y bydd sefydliad a reoleiddir yn ei freinio yn cael ei ddynodi'n awtomatig at ddibenion cefnogi myfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru.

Caiff cyrsiau (cymwys) breiniol eu rheoleiddio yn union yr un modd â chyrsiau a gynigir yn uniongyrchol gan ddarparwr a reoleiddir. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a gynigir ar ran sefydliad a reoleiddir. Ar lefel y sefydliad a reoleiddir y cymhwysir prif egwyddorion eraill y Bil (hyrwyddo cyfle cyfartal neu addysg uwch, materion ariannol). Yn olaf, bydd y Bil yn sicrhau bod rhaid i gyrsiau cymwys gael terfyn ffioedd wedi'i ragnodi mewn

[11] O.S. 2011/691 (W.103), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2012/1630 (W.209) ac O.S. 2013/1792 (W.179).

cynllun ffioedd a mynediad os yw sefydliad (sefydliad elusennol yng Nghymru) sy’n cynnig cwrs o’r fath yn gwneud cais am gymeradwyo’r cynllun ffioedd a mynediad hwnnw.

Mae’r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer trin ffioedd sy’n daladwy i ‘bersonau eraill’ – darparwyr eraill, yn anffurfiol – mewn perthynas â chwrs neu ran o gwrs a ddarperir ar ran sefydliad a reoleiddir fel petaent yn cael eu talu i’r sefydliad a reoleiddir. Bydd hyn yn sicrhau bod y terfyn ffioedd – un o brif nodweddion y fframwaith rheoleiddio – yn gymwys i ddarpariaeth freiniol hyd yn oed pan na fydd y ffi yn cael ei thalu i’r sefydliad a reoleiddir.

Nodir yma y gallai gweinyddiaethau eraill y DU fod â threfniadau gwahanol ar gyfer dynodi cyrsiau breiniol i’w myfyrwyr. Dylai sefydliadau a reoleiddir sicrhau unrhyw ddynodiadau eraill sydd eu hangen arnynt.

**Breinio gan ddarparwyr eraill**

Bydd cyrsiau wedi ei breinio gan ddarparwyr nad ydynt yn sefydliadau a reoleiddir yn amodol ar ddynodiad penodol, gan alluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth i ddysgwyr sy’n dilyn cyrsiau o’r fath.

Bydd hyn yn parhau i gynnwys cyrsiau breiniol sefydliadau addysgol a ariennir gydag arian cyhoeddus mewn rhannau eraill o’r DU. Ar hyn o bryd, nid yw cyrsiau breiniol sefydliadau addysgol o’r fath yn cael eu dynodi’n awtomatig.[12]

Yn hytrach, rhaid i’r breiniwr ofyn am ddynodiad gan Weinidogion Cymru. Nid oes cynnig i newid hyn.

**Cymwysterau cyrff dyfarnu**

Caiff y cyrsiau hyn, er enghraifft HND a HNC, eu dynodi yn yr un modd â chyrsiau eraill fel arfer.

## Cynnal dynodiad penodol

Ar hyn o bryd, ar ôl dynodi cwrs, nid oes gofyn i ddarparwyr hysbysu Gweinidogion Cymru oni bai bod newid sylweddol yn natur y cwrs. Nid yw’r dynodiadau yn gorffen neu’n dod i ben. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu

[12] Mae’n debygol y bydd newidiadau’n cael eu cyflwyno i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/3177) i ddarparu ar gyfer y ffordd a gynigir ar gyfer diffinio sefydliadau ym Mil Addysg Uwch (Cymru). Efallai y bydd angen diwygio’r Rheoliadau hefyd yn sgil y newidiadau i’r ffordd mae Llywodraeth Cymru’n diffinio rhai dosbarthiadau o sefydliadau (yn enwedig y symudiad i ddiffinio ‘darparwyr a ariennir gan awdurdodau’ mewn rheoliadau).

bod hyn yn ffafriol o ran sicrhau bod yr amcanion polisi a ddisgrifir uchod yn cael eu bodloni ac mae'n bwriadu cyflwyno rheolaethau ychwanegol.

### Adolygiad cyfnodol

Cynhelir adolygiad cyfnodol—bob blwyddyn neu ddwy o bosibl—o bob darparwr sydd â dynodiad. Bydd hyn yn profi a yw'r meini prawf ar gyfer dynodi yn parhau i gael eu bodloni.

### Dynodiadau sy'n dod i ben

Ni fydd dynodiadau'n parhau am gyfnod amhenodol mwyach. Y bwriad yw dod â dynodiad cwrs heb fyfyrwyr sy'n cael cymorth dros ddwy flynedd yn olynol i ben a bydd yn rhaid i'r darparwr ailgyflwyno cais am ddynodiad.

### Newidiadau perthnasol

Bydd angen hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau sy'n berthnasol i'r dynodiad. Mae 'perthnasol' yn golygu newidiadau a allai rwystro un neu fwy o'r meini prawf dynodi (gan gynnwys y meini prawf sy'n seiliedig ar y cwrs) rhag cael eu bodloni mwyach.

## Gweinyddiaeth

Mae Bil Addysg Uwch (Cymru) yn cynnig y dylai CCAUC fod yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau rheoleiddio gyda darparwyr sydd â dynodiad awtomatig gan Weinidogion Cymru. Gan fod y llwybr dynodi penodol yn rhan o'r dull rheoleiddio AU cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylai CCAUC gael swyddogaeth debyg yn y trefniadau dynodi penodol newydd. Gweinidogion Cymru fydd yn parhau i wneud penderfyniadau ynglŷn â dynodi cyrsiau ai peidio.

### Lleihau costau gweinyddol

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol fod gwneud cais am ddynodiad a'i gynnal yn creu rhywfaint o gost i ddarparwyr a fydd yn elusennau. Bydd y trefniadau dynodi newydd yn fwy drud i'r sector cyhoeddus eu gweinyddu hefyd.

Er mwyn rheoli'r costau hyn, cyn belled ag y bydd y ddwy system ddynodi yng Nghymru a Lloegr yn caniatáu hynny ac yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill, rydym yn cynnig y dylid arfer dull gweinyddol tebyg a

rhannu gwybodaeth rhwng y ddwy weinyddiaeth. Byddai angen trafod a chytuno ar hyn gyda Llywodraeth y DU. Bydd cyfyngiadau i'r dull hwn o weithredu.

## Cymharu rheoliadau ar gyfer darparwyr wedi'u rheoleiddio a darparwyr amgen

Fel y nodwyd, nodwedd allweddol o'r cynigion hyn yw sicrhau bod trefniadau rheoleiddio yn gadarn ac yn annibynnol ar y llwybr penodol tuag at ddynodiad y mae darparwr yn ei ddewis. Caiff hyn ei gydbwyso yn erbyn yr angen i ddatblygu system gymesur o reoleiddio a chynnal dewis rhesymol i ddysgwyr.

### Rheoli ffioedd a mynediad teg

Diystyrwyd rheoli ffioedd fel mesur rheoli ar gyfer darparwyr sy'n dewis y llwybr dynodi penodol. Mae faint o gymhorthdal, ac felly'r budd, y mae darparwyr amgen yn ei gael yn llai na'r hyn y mae darparwyr a ariennir yn gyhoeddus yn ei gael. Ystyrir bod rheoli ffioedd yn anghymesur.

Diystyrwyd mynediad teg fel maen prawf penodol gan ei fod hefyd yn cael ei ystyried yn anghymesur. Efallai y bydd y meini prawf statws elusennol yn gwella mynediad i'r graddau na all elusennau gyfyngu'n afresymol ar y cyfle i elwa.

### Ansawdd

Mae sicrwydd ansawdd yn nodwedd ganolog o'r system arfaethedig ar gyfer darparwyr amgen a bydd sicrwydd ansawdd bellach yn gadarn ar draws y sector AU.

### Sicrwydd ariannol

Mae sicrwydd ariannol hefyd yn nodwedd bwysig o'r system arfaethedig ar gyfer darparwyr amgen. Bydd hyfywedd ariannol yn cael ei asesu'n uniongyrchol.

### Rheolaethau eraill

Rheolaethau eraill sy'n rhan o'r fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer AU a ystyriwyd ar gyfer eu gweithredu yw mesurau ar gyfer rheoli niferoedd myfyrwyr, gweithdrefnau cwyno a gwybodaeth ddigonol i'r cyhoedd. Gweithredir y ddau olaf fel y disgrifiwyd uchod ond ni weithredir y cyntaf felly

ar hyn o bryd. Ystyrir bod nifer y myfyrwyr yn rhy fach i gyfiawnhau rheolaethau. Fodd bynnag, mae’n bosibl y gellir ailystyried hyn pe bai twf yn nifer y myfyrwyr sy’n cael cymorth.

## Effaith

Ar y cyfan, effaith gronnol y cynigion fydd gwella'r broses o reoleiddio cyrsiau gan ddarparwyr amgen yn sylweddol, gan leihau'r gwahaniaeth rhwng rheoleiddio'r llwybr awtomatig a'r llwybr penodol, a darparu sail resymegol eglur ar gyfer y gwahaniaeth.

Rydym yn cydnabod y gallai'r newidiadau hyn fod â'r potensial i effeithio'n andwyol ar rai dysgwyr a darparwyr.

Dylid ei gwneud yn glir, ein bwriad yw, na fydd unrhyw effaith ar fyfyrwyr presennol. Bwriad Gweinidogion Cymru yw galluogi myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau darparwyr nad ydynt yn gymwys mwyach i gynnal dynodiad yn ôl y meini prawf newydd (neu sy'n dewis peidio â gwneud hynny) i gwblhau eu hastudiaethau a byddant yn parhau'n gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr.

Bydd hyn yn effeithio ar ddarparwyr. Bydd y maen prawf statws elusennol yn golygu y bydd llai o ddarparwyr yn gymwys i wneud cais am ddynodiad neu am gynnal dynodiad. O'r 91 o ddarparwyr sydd ag o leiaf un cwrs wedi'i ddynodi gan Weinidogion Cymru, mae ein hasesiad yn awgrymu bod o leiaf 38 yn elusennau (nid yw'r broses weinyddol yn cofnodi a yw darparwyr yn elusennau ai peidio felly amcangyfrif yn seiliedig ar ymchwil yw hwn). Os yw'r ffigurau hyn yn gywir, ni fyddai hyd at 53 o ddarparwyr yn gymwys mwyach i gael dynodiad. O'r 66 o ddarparwr a oedd â myfyrwyr yn cael cymorth ariannol yn y flwyddyn ariannol 2013/14, credir bod 26 yn elusennau. Mae 110 o fyfyrwyr yn astudio gyda'r 26 o ddarparwr, 32% o'r cyfanswm cyfredol o 340.

Bydd effaith hefyd ar ddarpar fyfyrwyr. Gan y bydd llai o ddarparwyr yn gymwys ar gyfer dynodiad, mae llai o ddewis *sefydliadol* ar gyfer dysgwyr.

Mae'n llai eglur beth fydd yr effaith ar y dewis o *bynciau*. Yn fras, gellir grwpio'r pynciau a astudir gan fyfyrwyr ar gyrsiau sydd â dynodiad penodol yn bedwar maes cyffredinol: pynciau proffesiynol (er enghraifft, y gyfraith, cyfrifeg, rheoli busnes etc); pynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd (osteopathi, aciwbigo etc); celfyddydau perfformio (cerddoriaeth, cynhyrchu cerddoriaeth, actio, theatr etc); a diwinyddiaeth. Yn y rhan fwyaf o'r meysydd hyn, nid yw darparwyr naill ai'n anelusennol nac yn elusennol yn bennaf. Yr eithriad yw astudiaethau proffesiynol lle nad ymddengys bod gan y rhan fwyaf o ddarparwyr statws elusennol, er nad yw hyn yn wir am bob un.

Mewn rhai o'r meysydd hyn, gellid dadlau bod ystod eang o ddarpariaeth ar gael yn y sector prifysgolion cyhoeddus, er efallai nad yw hyn yn wir am bob darpariaeth.

Mae'r Rheoliadau yn caniatáu ar gyfer parhau i ddarparu Lwfans Myfyrwyr Anabl. Ni chynigir unrhyw newid i'r grant hwn ond bydd y sawl sy'n gymwys i gael y grant yn cael eu heffeithio gan y cynigion hyn drwy gyfyngu posibl o ran y dewis o sefydliadau a phynciau. Ni chredir y bydd myfyrwyr anabl yn teimlo'r effaith hon yn wahanol i fyfyrwyr nad ydynt yn anabl ar hyn o bryd.

Mae gan nifer o golegau diwinyddol gyrsiau dynodedig.  Bydd effaith y cynigion hyn yn ar fyfyrwyr sy'n dymuno astudio gyda'r darparwyr yma, hefyd yn cael ei asesu.

Mae asesiad manwl o effaith yn cael ei baratoi a bydd yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn.

## Gweithredu

Yn dilyn ymgynghori ac unrhyw newidiadau a wnawn i'r cynnig, rydym yn bwriadu gweithredu trefniadau newydd o fewn amserlen debyg i'r trefniadau a wneir ar gyfer y llwybr dynodi awtomatig. Mae'n debygol y rhoddir newidiadau ar waith yn llawn ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 er mwyn caniatáu digon o amser i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion hyn allu cynllunio. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried dull o weithredu fesul cam, gan gyflwyno rhai agweddau ar system newydd erbyn blwyddyn academaidd 2016/17 o bosibl Os deddfu'r Bil Hawliau Defnyddwyr, rhagwelir y bydd darparwyr sydd â dynodiad gan un o Weinidogion Cymru yn mynd yn aelodau o'r cynllun cwynion myfyrwyr yn ystod 2015. Bydd y meini prawf presennol yn berthnasol tan hynny. Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais am ddynodiadau newydd yn cael gwybod am y posibilrwydd y caiff meini prawf newydd eu sefydlu a'r posibiliad y bydd yn rhaid i'r ymgeiswyr hynny ailymgeisio am ddynodiad newydd.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar y broses sydd i'w rhoi ar waith, yn cynnwys adolygiad o ddynodiadau presennol a'r trefniadau trosiannol sydd i'w gwneud ar gyfer caniatáu i fyfyrwyr presennol darparwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer dynodiad mwyach allu cwblhau eu hastudiaethau.

### Adolygu dynodiadau presennol

Bydd dynodiadau presennol yn cael eu hadolygu (gan ragdybied bod y darparwr yn dymuno cynnal dynodiad) cyn rhoi'r trefniadau newydd ar waith. Yn unol â'n nod o leihau costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru ac i ddarparwyr, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i bennu a oes modd rhannu gwybodaeth yn ystod yr adolygiad hwn.

### Myfyrwyr presennol

Ni fydd myfyrwyr presennol yn cael eu heffeithio gan y cynigion hyn. Bwriad Llywodraeth Cymru yw eu galluogi i barhau â'u cyrsiau a dal i fod yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr drwy gydol eu cwrs.